# Ordinhad 30

# Archwilio a Risg

| | |
|---|---|
| **Y Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 14 Mehefin 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Newydd |
| **Fersiwn:** | 1 |

# Ordinhad 30
# Archwilio a Risg

1. Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor i ymdrin ag archwilio a risg a fydd yn cytuno ar y canlynol:

   - y weithdrefn ar gyfer penodi'r archwilwyr mewnol ac allanol;
   - cyfnodau yn y swydd, swyddogaethau a chydnabyddiaeth yr archwilwyr mewnol ac allanol;
   - cyfansoddiad a swyddogaethau Pwyllgor Archwilio a Risg.

2. Ni chaiff unrhyw un sy'n aelod o'r Cyngor, y Llys neu'n staff Prifysgol Bangor. ei benodi'n Archwiliwr, nac unrhyw un y mae eu partner yn aelod o'r Cyngor, y Llys neu'n staff Prifysgol Bangor.

3. Penodir yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn flynyddol gan y Cyngor, gan dderbyn y cyfryw dâl a bennir gan y Cyngor a byddant yn gymwys i'w hailbenodi.

4. Gellir diswyddo'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol ar unrhyw adeg trwy benderfyniad arbennig y Cyngor os bydd diffygion difrifol ar ran yr Archwilwyr yn cael eu nodi. Bydd gan unrhyw Archwiliwr neu Archwilwyr sy'n wynebu cael eu diswyddo hawl i gyflwyno sylwadau naill ai'n ysgrifenedig, neu yn y cnawd, i'r Cyngor cyn i'r penderfyniad i ddiswyddo gael ei wneud.

5. Bydd gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol hawl mynediad bob amser i lyfrau, cofnodion, cyfrifon a thalebau Prifysgol Bangor a bydd ganddynt hawl i fynnu gan swyddogion Prifysgol Bangor unrhyw wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol yn ymwneud â chyflawni eu dyletswyddau.

6. Os daw swydd yr Archwiliwr neu'r Archwilwyr yn wag trwy farwolaeth neu ymddiswyddiad neu unrhyw achos arall cyn diwedd eu cyfnod yn y swydd, bydd y Cyngor yn penodi Archwiliwr yn eu lle ar unwaith am weddill y cyfnod hwnnw.

7. Bydd yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn darparu adroddiad i'r Cyngor unwaith y flwyddyn.

8. Gall Archwilwyr Mewnol ac Allanol ymddiswyddo trwy rybudd ysgrifenedig a gyfeirir at Ysgrifennydd y Cyngor.